



PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CYNGOR

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 6 Mawrth 2019 am 5.00 pm ym
The Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park. Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Adams	Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd H Boggis	Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd S Bradwick	Y Cyngorydd J Brencher
Y Cyngorydd A Calvert	Y Cyngorydd G Caple
Y Cyngorydd A Chapman	Y Cyngorydd A Cox
Y Cyngorydd A Crimmings	Y Cyngorydd J Cullwick
Y Cyngorydd A Davies-Jones	Y Cyngorydd G Davies
Y Cyngorydd L De Vet	Y Cyngorydd M Diamond
Y Cyngorydd J Elliott	Y Cyngorydd S.Evans
Y Cyngorydd S Evans	Y Cyngorydd M Forey
Y Cyngorydd A Fox	Y Cyngorydd E George
Y Cyngorydd M Griffiths	Y Cyngorydd J Harries
Y Cyngorydd G Holmes	Y Cyngorydd L Hooper
Y Cyngorydd G Hopkins	Y Cyngorydd G Hughes
Y Cyngorydd J James	Y Cyngorydd P Jarman
Y Cyngorydd M Fidler-Jones	Y Cyngorydd G Jones
Councillor K Jones	Y Cyngorydd W Jones
Y Cyngorydd R Lewis	Y Cyngorydd W Lewis
Y Cyngorydd C Leyshon	Y Cyngorydd A Morgan
Y Cyngorydd Owen-Jones	Y Cyngorydd M Powell
Y Cyngorydd S Powell	Y Cyngorydd S. Rees-Owen
Y Cyngorydd S Rees	Y Cyngorydd A Roberts
Y Cyngorydd J Rosser	Y Cyngorydd R Smith
Y Cyngorydd G Stacey	Y Cyngorydd E Stephens
Y Cyngorydd M Tegg	Y Cyngorydd G Thomas
Y Cyngorydd W Treeby	Y Cyngorydd R Turner
Y Cyngorydd L Walker	Y Cyngorydd M Webber
Y Cyngorydd E Webster	Y Cyngorydd G Williams
Y Cyngorydd J Williams	Y Cyngorydd T Williams
Y Cyngorydd C Willis	Y Cyngorydd R Yeo

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfathrebu
Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

107 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Belzak, D. Grehan, H. Fychan, P. Howe, L. Jones, D. Macey, K. Morgan, S. Morgans, M. Norris, W. Owen, S. Pickering, M. Weaver a D. Williams.

108 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud yn y cyfarfod ynglŷn â'r agenda. Arhosodd yr Aelodau yn y cyfarfod pan oedd yr eitemau yn cael eu trafod ac yn destun pleidlais:

Agendwm 5: Cwestiynau gan y Cyhoedd

- Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser - "Cefais fy mhenodi i Gorff Llywodraethu Coleg Morgannwg (Coleg y Cymoedd erbyn hyn) am gyfnod o 4 blynedd yn ail Gyfarfod Blynyddol Cyffredinol ar hugain y Cyngor (17.05.17), ond nid yw fy muddiant yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o God Aelodau'r Cyngor."
- Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Fidler Jones - "Rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn y cyfeirir atyn nhw yng nghynnig Ysgolion yr 21ain Ganrif, ond nid yw fy muddiant yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o God Aelodau'r Cyngor."
- Mr C Bradshaw - Prif Weithredwr - "Cefais fy mhenodi i Gorff Llywodraethu Coleg Morgannwg (Coleg y Cymoedd erbyn hyn) am gyfnod o 4 blynedd yn ail Gyfarfod Blynyddol Cyffredinol ar hugain y Cyngor (17.05.17)."

Agendwm 9: Adolygiad o Strwythur Uwch Reolwyr a Swyddi Rheoli Cysylltiedig y Cyngor

- Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Bevan – "Mae Aelod o'm teulu yn gweithio fel Uwch Swyddog yn yr Awdurdod er nad oes cyfeiriad at y swydd yn yr adroddiad na'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 18 Rhagfyr, 2018."

Gwnaeth y swyddogion canlynol ddatganiad o fuddiant personol ac ariannol ynglŷn â'r mater yma, a gadawon nhw pan oedd y mater yn cael ei drafod ac yn destun pleidlais:

- Mr C. Lee – Cyfarwyddwr Cyfadrn y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
- Mr C. Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
- Mr C. Hanagan - Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol

Gwnaeth y swyddogion canlynol ddatganiad o fuddiant personol ac ariannol ynglŷn â'r mater yma, ond arhoson nhw yn y cyfarfod pan oedd y mater yn cael ei drafod er mwyn rhoi cyngor i'r Cabinet:-

- Mr C. Bradshaw – Prif Weithredwr
- Mr R. Evans – Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol

Agendwm 10: Rhaglen Gyfalaf

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Davies – “Rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu YGG Ynys-wen sy wedi'i henwi yn yr adroddiad ond nid yw fy muddiant yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o God Aelodau'r Cyngor.”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis – “Rwy'n Gadeirydd ar Gorff Llywodraethu YGG Abercynon sy wedi'i henwi yn yr adroddiad ond nid yw fy muddiant yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o God Aelodau'r Cyngor.”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis – “Rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Gelli sy wedi'i henwi yn yr adroddiad ond nid yw fy muddiant yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o God Aelodau'r Cyngor.”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto – “Rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Ffynnon Taf sy wedi'i henwi yn yr adroddiad ond nid yw fy muddiant yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o God Aelodau'r Cyngor.”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins – “Rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Llanhari ond nid yw fy muddiant yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o God Aelodau'r Cyngor.”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees – “Rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol YGG Aberdâr ond nid yw fy muddiant yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o God Aelodau'r Cyngor.”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen-Jones – “Rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Gymuned Tonyrefail ond nid yw fy muddiant yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad sydd wedi'i gynnwys ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o God Aelodau'r Cyngor.”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Powell – “Mae fy ngwraig yn gweithio i'r Cyngor a hefyd rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Coedpenmaen ond nid yw fy muddiant yn un sy'n rhagfarnu oherwydd yr eithriad sy wedi'i gynnwys ym mharagraff 12(2)(a)(iii) o God Aelodau'r Cyngor.”

Agendwm 11: Strategaeth Cyllideb Refeniw

- Cyfeiriodd y Cynghorydd P. Jarman at y gollyngiad a gafodd hi gan y Pwyllgor Safonau ar 23 Tachwedd 2018. "Caf i siarad a phleidleisio ar bob mater tra bod proses pennu Cyllideb 2019-2020 yn mynd rhagddi ac yn cael ei mabwysiadu, a hynny fel Arweinydd yr Wrthblaid."

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Harries – “Rwy'n Aelod o Awdurdod Tân De Cymru.”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Bradwick – “Fi yw Is-gadeirydd Awdurdod Tân De Cymru.”

Agendwm 14A: Rhybudd o Gynnig

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Harries - “Rwy'n aelod o'r Lleng Brydeinig Frenhinol.”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Smith - “Rwy'n aelod o'r Lleng Brydeinig Frenhinol.”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis - “Rwy'n aelod o'r Lleng Brydeinig Frenhinol.”
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. James - “Roeddwn i arfer gweithio i'r Lleng Brydeinig Frenhinol.”

109 CYHOEDDIADAU

- Rhoddodd y Maer wybod i Aelodau fod angladd mam Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Howe wedi'i gynnal yn gynharach heddiw ac ar ran y Cynghorydd diolchodd y Maer i'r holl Aelodau a oedd wedi cynnig cymorth iddo yn ystod y cyfnod anodd yma.
- Dywedodd y Maer wrth Aelodau fod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Sue Pickering wrthi'n ymgymryd â Her Goroesi'r Arctig ar ran y Lleng Brydeinig Frenhinol ar hyn o bryd a dymunodd yn dda iddi.
- Dywedodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Bevan wrth yr Aelodau fod dau ddyn ifanc o Gwm Rhondda, Conor Thomas o Tylorstown a John Harding wedi cael eu dewis ar gyfer Carfan Clwb y Bechgyn Cymru dan 15 a byddan nhw'n cynrychioli'r wlad ym mis Mai. Ychwanegodd y Cynghorydd Bevan fod cyflawniadau'r ddau ddyn ifanc unwaith eto yn dangos talent anhygoel pobl ifainc yn ein cymunedau yn Rhondda Cynon Taf.
- Talodd yr Arweinydd, ynghyd â'r Dirprwy Arweinydd a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman deyrngedau i'r tri Uwch Swyddog a fydd yn gadael yr Awdurdod yn fuan sef Mr Chris Lee, Mr Chris Jones a Mr Colin Atyeo. Manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i ddiolch i'r tri swyddog am eu gwaith, eu cymorth a'u hymrwymiad i'r Awdurdod dros eu blynyddoedd lawer o wasanaeth a dymunon nhw'n dda iddyn nhw i gyd yn y dyfodol.

110 COFNODION

PENDERFYNODD y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2018 yn gofnodion cywir yn dilyn y newidiadau canlynol:

- Cynnwys Datganiad o Fuddiant gan Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol H. Fychan mewn perthynas â'r Cwestiynau gan Aelodau - “Roeddwn i arfer

bod ar Fwrdd Canolfan Gelf y Miwni" yng Nghofnod Rhif 94

- Dylai casgliad Cofnod Rhif 106 ddarllen 'Penderfynwyd mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig sy'n sefyll yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol R. Smith ac R. Lewis.'

111 DATGANIADAU

Datganiad gan Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â'r A465.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr anawsterau a brofodd cannoedd o drigolion yng Nghwm Cynon oherwydd cau'r A465, gan ddweud efallai na fydd y ffordd yn cael ei hagor eto heno. Dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi bod yn cysylltu â'r Cyngorydd Thomas yn rhinwedd ei rôl yn aelod lleol, a Llywodraeth Cymru, mewn perthynas â'r materion yma. Dywedodd wrth Aelodau fod hwn yn fater i'r asiant cefnffordd, a'i fod wedi'i achosi gan ddifrod i gwlfwr. Nododd hefyd fod y pypiau sy'n cael eu defnyddio gan yr asiant ddim yn ddigonol ar gyfer cyfaint y dŵr sydd angen ei bwmpio. Datganodd yr arweinydd yn glir nad oedd y mater yma yn gysylltiedig â Glofa'r Tŵr fel yr oedd yr Asiant Cefnffordd wedi'i awgrymu'n wreiddiol. Siaradodd yr Arweinydd am y broblem a'r oedi sy'n wynebu llawer o drigolion Cwm Cynon a chymudwyr, rhai yn wynebu gwyriad 50 milltir ac oedi o 3 awr, yn ogystal â'r effaith mae hyn yn ei chael ar deithio i'r ysgol. Nodwyd ymhellach fod rhybudd wedi'i gyhoeddi o dan y Ddeddf Draenio Tir a phe na bai camau yn cael eu cymryd yna byddai rhybudd cyfreithiol yn cael ei gyhoeddi. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n dwyn y mater i sylw'r Gweinidog mewn cyfarfod yr oedd yn mynd iddo ar 7 Mawrth, gan nad oedd yn dderbyniol i'r ffordd gael ei chau. Daeth yr Arweinydd i ben trwy roi sicrwydd i Aelodau bod y Cyngor yn gwneud popeth y mae modd iddo ei wneud o ran y mater er mai mater i'r Asiant y Cefnffordd ydyw.

Datganiad gan Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â Brexit

Rhododd yr Arweinydd ddiweddariad i Aelodau ers ei ddatganiad blaenorol yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr. Dywedodd fod arolwg wedi cael ei gynnal gyda staff mewn perthynas â chynllun setliad yr UE, a chafodd y costau eu diddymu. Roedd y Cyngor wedi cysylltu â'r Undebau Llafur a dim ond nifer fach iawn o staff (llai na deg) a oedd yn cael eu heffeithio.

Mewn perthynas â chyflenwi bwyd a'r posibilrwydd o amharu ar wasanaethau, cyfeiriodd yr Arweinydd at waith sy'n cael ei wneud gan uned gaffael y Cyngor a CLILC. Ychwanegodd nad oes disgwyl y bydd y sefyllfa'n tarfu ar argaeledd tanwydd oni bai bod pobl yn prynu mewn panig.

Sicraodd yr Arweinydd yr Aelodau fod popeth posibl yn cael ei wneud, a bod trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal mewn perthynas â gwastraff a goblygiadau posibl o ran ailgylchu. Cafodd Aelodau wybod am y broblem bosibl wrth yrru ar draws Ewrop pe bai'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb, oherwydd yr angen i gael 'Cerdyn Gwyrdd' yn y dyfodol.

Nododd yr Arweinydd y byddai diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod y Cyngor ar 27 Mawrth, a chyfeiriodd at anawsterau cynllunio wrth gefn ar gyfer yr annisgwyl, ond cadarnhaodd fod y Cyngor yn ceisio cynllunio ar gyfer pob sefyllfa gymaint â phosibl.

Datganiad gan Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â Chyfraith Lucy.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at y Rhybudd o Gynnig a gafodd ei gyflwyno i'r Cyngor un mis ar ddeg yn ôl mewn perthynas â gwerthu cŵn bach drwy drydydd parti, sef Cyfraith Lucy. Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd fod y Rhybudd o Gynnig yma wedi derbyn cefnogaeth unfrydol ar draws yr holl bleidiau

gwleidyddol yn Siambr y Cyngor. Cafodd Aelodau wybod fod pob Cyngor yng Nghymru, heblaw am Sir Fynwy, wedi cytuno i gefnogi'r Rhybudd o Gynnig, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, yn dilyn sawl ymweliad â Llywodraeth Cymru a gwaith lobiö gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol T. Leyshon a J. Bonetto ynghyd â Friends of the Animals Wales.

Cafodd Aelodau wybod fod Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal ymgynghoriad 12 wythnos ar wahardd gwerthu cŵn a chathod bach drwy drydydd parti. Daeth y Dirprwy Arweinydd â'i datganiad i ben drwy ychwanegu y byddai'n parhau i frwydro dros yr achos yma a'i gefnogi nes i Gyfraith Lucy gael ei gweithredu'n gyfreithiol.

112 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Cyn i'r Cwestiynau gan y Cyhoedd gael eu cynnal, rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol drosolwg i'r Aelodau a'r cyhoedd o'r broses. Dywedodd y Cyfarwyddwr hefyd fod pwnc y cwestiynau i'w ystyried yng nghyfarfod y Cabinet ar 21 Mawrth ac felly efallai na fydd yr Aelodau'n gallu rhoi sylwadau ar unrhyw agwedd a allai ragfarnu penderfyniad y Cabinet.

1. Cwestiwn gan Ms C. King i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg ddatganiad yn esbonio sut bydd amharu ar addysg plant Ton-teg teirgwaith yn ystod eu taith drwy'r ysgol yn cyd-fynd â pholisi corfforaethol Cyngor RhCT sy'n datgan, 'dylai pob plentyn gael y cyfle i fanteisio ar yr addysg orau sydd ar gael'?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet i Ms King am ei chwestiwn ac ailadroddodd sylwadau Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol y byddai'r Cabinet yn derbyn canlyniad yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynigion ar 21 Mawrth ac eglurodd nad oedd penderfyniad wedi ei wneud ynglŷn â'r cynnig yma nac unrhyw gynnig arall.

Parhaodd yr Aelod o'r Cabinet drwy roi gwybod bod disgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn gwahanol ysgolion ac ar wahanol safleoedd wrth iddyn nhw symud ymlaen trwy eu taith addysg yn gyffredin, nid yn unig yn RhCT ond ar draws Cymru a Lloegr. Daeth yr Aelod o'r Cabinet a'i sylwadau i ben drwy ddweud bod trefniadau pontio effeithiol yn allweddol mewn amgylchiadau o'r fath.

Cwestiwn atodol gan Ms King:

O un rhiant i'r llall, sut fydddech chi'n dweud wrth eich merch 10 oed na fydd modd iddi fynd i'r un ysgol gyfun â'i ffrindiau na'i brawd mawr?

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai'n amhriodol iddi wneud sylwadau ar hyn o bryd oherwydd y broses ymgynghori y mae angen ei dilyn a chan nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto.

2. Cwestiwn gan Ms L. Williams i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifanc, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C. Leyshon:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc ddatganiad ynglŷn â sut mae cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif sy'n cynnwys gwahanu plant Ton-teg oddi wrth eu ffrindiau, eu cyfoedion a'u cymunedau lleol yn cydymffurfio ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Siatr y Cenhedloedd Unedig i Bobl Ifainc?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol T. Leyshon:

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet i Ms Williams am ei chwestiwn a dywedodd hefyd y byddai'r cynigion yn cael eu hystyried mewn cyfarfod o'r Cabinet yn y dyfodol. Parhaodd drwy roi gwybod bod y cynigion wedi'u halinio â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r 7 nod craidd. Dywedodd fod hyn oherwydd trwy fuddsoddi yn yr ysgolion a datblygu ysgolion sy'n addas i'r 21^{ain} ganrif, mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant, ac ystod gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu o ansawdd uchel. Daeth yr Aelod o'r Cabinet i ben trwy gyfeirio at y gweithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol o ansawdd uchel a fydd yn cael eu darparu hefyd.

Cwestiwn atodol gan Ms Williams:

Soniodd Ms Williams am Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig a hawl y plentyn i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ar yr holl faterion sy'n effeithio arno, ac i'w farn gael ei ystyried o ddifrif. Ychwanegodd nad oedd hyn wedi cael ei gyflawni gan Gyngor RhCT yn achos y newid arfaethedig i ddalgylch Ton-teg. Parhaodd Ms Williams drwy ddweud nad oedd unrhyw un wedi gofyn am farn plant Ton-teg na'r ysgol ar y mater, ac nad oedd eu teimladau wedi cael eu hystyried. Parhaodd drwy ofyn sut oedd hi'n bosibl i'r Cyngor ddarparu dogfen 'hawdd i'w darllen' ar gyfer ei ymgynghoriad mewn perthynas â gwasanaethau gofal preswyl, ond nad oedd dogfen o'r fath wedi'i llunio ar gyfer y cynigion ar gyfer yr ysgolion, nag unrhyw ymdrech wedi'i wneud i siarad â'r plant a byddai'n cael eu heffeithio.

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol T. Leyshon:

Dywedodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol Leyshon nad oedd hi'n gallu ateb y cwestiwn oherwydd nad hi yw'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, ond rhoddodd wybod y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu gan yr Aelod o'r Cabinet perthnasol.

3. Cwestiwn gan Mr G. Ward i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg ddatganiad yn dadansoddi'n fanwl yr hyn sy'n cael ei ddyfynnu yng nghynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif ynglŷn â nifer y plant o Don-teg a fydd yn cael eu heffeithio o flwyddyn i flwyddyn gan y newidiadau arfaethedig i ddalgylch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen?"

Ymateb gan yr Aelod o'r Cabinet J. Rosser:

Darparodd yr Aelod o'r Cabinet y data canlynol mewn perthynas â niferoedd disgyblion Ysgol Gynradd Gwauncelyn:

- Blwyddyn 3: Cyfanswm o 53 – 26 yn y dalgylch

- Blwyddyn 2: Cyfanswm o 56 – 26 yn y dalgylch
- Blwyddyn 1: Cyfanswm o 55 – 33 yn y dalgylch
- Dosbarth Derbyn: Cyfanswm o 51 – 27 yn y dalgylch
- Dosbarth Meithrin Cyfanswm o 51 – 26 yn y dalgylch.

Cwestiwn atodol gan Mr Ward:

Gofynnodd i'r Aelod o'r Cabinet esbonio pam mai ei ferch ef oedd yr unig blentyn allan o 11 o Ysgol Gynradd Gwauncelyn, allan o 56 disgybl yn ei blwyddyn? Ychwanegodd ei fod wedi cael yr wybodaeth ddibynadwy yma wrth siarad â phobl ac yn bwysicach fyth blant Ton-teg – ychwanegodd nad oedd y Cyngor wedi gwneud hyn. Ychwanegodd hefyd ei fod yn effeithio ar 3 phlentyn o Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref yn unig ac 1 o Ysgol Gynradd Maes-y-Bryn yn 2022.

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet ei bod hi'n ansicr ynglŷn â'r ffigurau a ddyfynnwyd gan ychwanegu bod y ffigurau a oedd ganddi hi wedi'u seilio ar y niferoedd presennol yn Ysgol Gwauncelyn. Ychwanegodd fod 43 o ddisgyblion hefyd yn byw yn nalgylch Gwauncelyn sydd ar hyn o bryd yn mynd i ysgolion eraill a fydd yn cael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig i'r dalgylch. Cytunodd yr Aelod o'r Cabinet i ddarparu manylion pellach i Mr Ward.

4. Cwestiwn gan Mr C. Garlick i Arweinydd y Cyngor, Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Trafnidiaeth ddatganiad ynglŷn â diogelwch y llwybr cerdded presennol rhwng Ton-teg ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen sydd wedi'i bennu'n 'ddiogel' yng nghynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Cyfeiriodd yr Arweinydd at yr adolygiad diweddar a gynhaliwyd mewn perthynas â'r llwybr – nododd yr adolygiad fod y llwybr 'ar gael', ac nid yw o reidrwydd yn golygu ei fod yn ddiogel ond ei fod ar gael i'w ddefnyddio. Ychwanegodd pe bai'r cynigion yn cael eu datblygu yna byddai adolygiad pellach yn cael ei gynnal o safbwynt mynediad, ac os byddai angen unrhyw addasiadau byddai hyn yn cael ei weithredu fel y bo'n briodol, neu os nad oedd y llwybr yn addas yna byddai opsiynau eraill cael eu hystyried fel darpariaeth bws.

Cwestiwn atodol gan Mr Garlick:

Cyfeiriodd Mr Garlick at y gofynion cyfarwyddyd sy'n nodi y dylid ystyried barn y plentyn. Gofynnodd Mr Garlick a fyddai barn y plant yn cael ei hystyried pe bai'r cynigion yn cael eu datblygu a sut y byddai hyn yn cael ei wneud?

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y canllawiau a gyflwynwyd gan Edwina Hart a'r archwiliad corfforol y byddai angen ei wneud pe bai'r cynigion yn cael eu datblygu. Cyfeiriodd hefyd at y mesurau sy wedi'u rhoi ar waith i gasglu'r adborth gan y plant a'r gymuned leol. Dywedodd yr Arweinydd fod unrhyw adolygiad o lwybr diogel sy'n cael ei gynnal gan yr Awdurdod yn dilyn cynigion newydd mewn perthynas ag ysgolion newydd yn destun

ymgyngoriad cyhoeddus er nad oedd hyn bob amser yn ofynnol yn statudol.

5. **Cwestiwn gan Mr Marshman i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg ddatganiad ynglŷn â pham mae'r awdurdod lleol yn seilio ei ymgynghoriad ar gynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif ar y Cod Ysgol newydd, yn hytrach nag argraffiad cyntaf y Cod, sef yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylid ei ddefnyddio?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod argraffiad newydd y cod yn nodi pe bai cyfnod ymgynghori yn dechrau cyn 1 Tachwedd 2018 yna dylai argraffiad cyntaf y cod gael ei ddefnyddio. Er eglurder, cadarnhaodd yr Aelod o'r Cabinet fod y cyfnod ymgynghori wedi dechrau ar 15 Hydref, 2018. Ychwanegodd mai'r ddeddfwriaeth gyffredinol sy'n pennu sut mae Cyngor yn ymgynghori yw Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gan ychwanegu bod y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn rhan o'r Ddeddf yma. Parhaodd yr Aelod o'r Cabinet drwy egluro bod y Cyngor wedi sicrhau bod cyfrifoldebau statudol dau argraffiad y Cod wedi eu bodloni. Ychwanegodd fod y Cyngor wedi cymryd gofal ychwanegol er mwyn sicrhau ei fod wedi cydymffurfio'n llawn â'r holl ofynion statudol.

Cwestiwn atodol gan Mr Marshman:

Soniodd Mr Marshman am bwysigrwydd y Cod Trefniadaeth Ysgolion a gofynion yr ymgynghoriad i sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal. Ychwanegodd fod canllawiau Llywodraeth Cymru yn glir o ran pa argraffiad o'r cod y dylid ei ddefnyddio wrth gynnal yr ymgynghoriad, ac nid oedd y Cyngor wedi cydymffurfio â hyn. Dywedodd Mr Marshman gan fod y Cyngor yn defnyddio'r argraffiad anghywir, mae'r ymgynghoriad yn ddiffygiol, a gofynnodd sut gallai rhieni hyderu fod yr ymgynghoriad yn ddilys gan fod y cod anghywir wedi cael ei ddefnyddio?

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod y Cyngor wedi cydymffurfio â dau fersiwn y cod ac felly wedi mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol a amlinellwyd yn y broses.

Cyn cloi'r eitem, diolchodd y Maer i aelodau'r cyhoedd am eu cwestiynau i'r Cyngor.

113 **CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR**

1. **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Yeo i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol C. Leyshon:**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet roi diweddariad i Aelodau ar gyflwyno cynnig Gofal Plant am Ddim Llywodraeth Cymru?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol T. Leyshon:

Cadarnhaodd Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol Leyshon fod y cynllun hynod fuddiol hwn wedi bod ar gael i deuluoedd ledled Rhondda Cynon

Taf er mis Medi 2018. Ychwanegodd fod y cynnig yn cael ei weinyddu'n wreiddiol yn ôl dalgylchoedd ysgolion ond wedyn cafodd ei newid i gwmpasu wardiau etholiadol i wella'r ddarpariaeth a'i gwneud yn haws i rieni wneud cais.

Cafodd Aelodau wybod bod y Cyngor hyd yma wedi derbyn dros 1,100 o geisiadau (1131) gyda bron i 1,100 (1,095) o'r rheini yn gymwys i fanteisio ar y cynllun, gan ddangos bod nifer sylweddol o rieni ar draws Rhondda Cynon Taf yn manteisio arno. Gorffennodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Leyshon ei hymateb drwy nodi bod y Cyngor nawr yn derbyn ceisiadau ar ran Cyngor Merthyr Tudful hefyd ac yn yr un modd, byddai'n cynorthwyo CBS Pen-y-bont ar Ogwr i weinyddu eu cynigion ym mis Ebrill 2019.

Doedd gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Yeo ddim cwestiwn atodol.

2. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Chapman i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn delio â chwynion am sbwriel ar dir preifat?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Dywedodd yr Arweinydd fod dau ddarn o ddeddfwriaeth ar gael trwy lechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Gwastraff. Mae modd defnyddio'r ddau bŵer i fynnu bod perchnogion tir preifat yn cael gwared ar unrhyw wastraff, gan gynnwys unrhyw sbwriel sy wedi'i gronni, os oes perygl o ddenu cnofilod. Ychwanegodd hefyd fod hyn yn berthnasol i achosion lle mae gymaint o sbwriel mae'r tir yn edrych yn hyll neu mae'r sbwriel yn cael effaith niweidiol ar fwynderau yn yr ardal. Cyfeiriodd yr Arweinydd at A87 o Ddeddf Pwerau Amgylcheddol 1990 mewn perthynas â'r drosedd o ollwng neu adael sbwriel, a chafodd hyn ei hatgyfnerthu hefyd drwy'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus. Daeth yr Arweinydd i ben drwy ailadrodd bod pwerau gorfodi ar gael o dan ddau ddarn o ddeddfwriaeth.

Cwestiwn atodol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Chapman

Holodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Chapman a oes gan y Cyngor bwerau i orfodi cau tir i osgoi mynediad heb awdurdod ar gyfer diogelwch y cyhoedd yn gyffredinol. Parhaodd y Cynghorydd Chapman i drafod safleoedd peryglus fel Ystad Ddiwydiannol Cae Mawr a thir gyferbyn â Co-op Treorci sy'n peri perygl i bobl ifainc a phlant yn ei ward. Parhaodd y Cynghorydd drwy ychwanegu bod Cae Mawr yn 'berygl bywyd' yn ôl trigolion lleol ac mae tir gyferbyn â Co-op Treorci wedi bod yn anniben ers blynnyddoedd lawer gyda mynediad uniongyrchol i'r afon sy'n ardal arbennig o beryglus.

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

Dywedodd yr Arweinydd nad oedd hyn yn dod o dan y ddeddfwriaeth yr oedd wedi'i chrybwyll yn flaenorol ond ei fod yn dod o dan y ddeddfwriaeth gynllunio 'Deddf Tir Anniben'. Parhaodd yr Arweinydd drwy nodi bod gan y Cyngor bwerau i orfodi mewn perthynas â thir neu strwythurau peryglus, gyda rhybuddion statudol. Cyfeiriodd yr Arweinydd at ddefnydd blaenorol o'r ddeddfwriaeth a rhybudd cyhoeddus i gael gwared ar broblem. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n trafod y mater gyda swyddogion perthnasol ar ran yr Aelod.

3. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:

"A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am gynlluniau'r Cyngor ar gyfer cefnogi pobl ifainc i ddod o hyd i waith, yn ychwanegol at brentisiaethau a chynlluniau graddedigion?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:

Soniodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Webber am ymrwymiad y Cyngor i gefnogi pobl ifainc a meithrin cyfleoedd cyflogaeth yn fewnol ac yn allanol, lle bo hynny'n bosibl. Dywedodd y Cynghorydd Webber fod cynlluniau Graddedigion a Phrentisiaethau'r Cyngor wedi creu 79 o swyddi ar y cyd ers dechrau tymor y Cyngor yma, a hefyd mae llwybrau cyflogadwyedd eraill yn cael eu cynnig. Cafodd Aelodau wybod bod y Cyngor wedi cyhoeddi sefydlu 25 prentisiaeth a 9 swydd i raddedigion pellach ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf heddiw i adeiladu ar y cynnydd ardderchog hyd yma.

Cafodd Aelodau wybod am enghreifftiau o waith o fewn Ysgolion Uwchradd trwy gyrsiau cyflogadwyedd i sy'n paratoi disgyblion ar gyfer byd gwaith trwy feithrin sgiliau hanfodol. Hefyd mae pob ysgol uwchradd ac ysgol arbennig yn cael mynediad at fasdata o dros 600 o gyflogwyr lleol sy wedi cytuno i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith y bobl ifainc ym mlynnyddoedd 10 i 13.

Yn ogystal â hyn, cafodd Aelodau wybod hefyd am y rhaglenni cyflogaeth mewnlod sydd gan y Cyngor. Cyfeiriodd y Cynghorydd at:

- Camu i'r Cyfeiriad Cywir - 18 o hyfforddeion wedi'u recriwtio gyda 3 yn sicrhau cyflogaeth. Cwblhaodd 6 gymhwyster ac mae 3 yn gweithio tuag at gymhwyster. Gadawodd 4 y cynllun cyn i'w contract 2 flynedd ddod i ben.
- GofaliWaith - cafodd 104 o bobl ifainc eu cyfeirio at y rhaglen gydag 85 o bobl wedi'u cofrestru ac wedi ymgysylltu. Sicrhaodd 15 ohonyn nhw gyflogaeth ac mae 65 wedi mynd i addysg bellach neu hyfforddiant gyda 5 arall yn mynd i wneud gwaith gwirfoddol.

Cwestiwn atodol gan Gynghorydd Fwrdeistref Sirol J. Bonetto:

Gofynnodd y Cynghorydd Bonetto gwestiwn atodol, sef sut mae'r Cyngor yn cydweithio â Thrafnidiaeth Cymru i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifainc yn y depo newydd yn Ffynnon Taf.

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber:

Dywedodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Webber fod y Cyngor yn cydnabod bod hwn yn gyfle gwych i bobl ifainc yn RhCT a'i fod yn bwriadu cydweithio â Thrafnidiaeth Cymru ar y mater yma. Cafodd Aelodau wybod am Ffair Swyddi'r Cyngor a gynhaliwyd yn gynharach y diwrnod hwnnw yng Nghanolfan Hamdden Sobell y Cyngor, ac roedd Trafnidiaeth Cymru yn bresennol. Dywedodd y Cynghorydd Webber fod dros 900 o bobl wedi mynychu'r Ffair Swyddi, gan ddweud bod hwn yn ffordd ardderchog i bobl ifainc ymgysylltu. Gorffennodd y Cynghorydd Webber ei hymateb drwy roi sylwadau ar y Ganolfan Ragoriaeth ar safle Coleg y Cymoedd yn Nantgarw, yr unig un o'i math yng Nghymru.

4. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Davies-Jones i'r

Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet roi diweddariad ar gynnydd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn ardal Tonyrefail?"

Ymateb gan Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

Soniodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Rosser am y cynnydd ardderchog sydd wedi'i wneud yn ardal Tonyrefail gyda datblygiad Ysgol Gymuned Tonyrefail (3-19 oed) newydd. Mae'r adeilad cynradd wedi'i gwblhau a bydd y disgyblion uwchradd yn eu hysgol newydd ar ôl gwyliau'r Pasg. Parhaodd y Cynghorydd Rosser drwy roi gwybod bod adeilad Blynnyddoedd Cynnar newydd wedi'i gwblhau ar y safle sy'n darparu gofal plant cyn ac ar ôl ysgol hefyd. Cafodd Aelodau wybod am fanylion ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail, a rhoddodd yr Aelod wybod bod yr ysgol bellach wedi symud i hen adeilad Ysgol Gynradd Tonyrefail, gyda buddsoddiad o dros £1 miliwn i atgyweirio'r ysgol bresennol a oedd mewn cyflwr eithaf da. Mae hyn wedi creu capasiti ychwanegol i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf. Yn ogystal â hyn, mae gan yr ysgol Uned Blynnyddoedd Cynnar Cymraeg yn ogystal â darpariaeth Dechrau'n Deg.

Cwestiwn atodol gan Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Davies-Jones:

Dywedodd y Cynghorydd Davies-Jones fod trigolion Tonyrefail yn falch iawn o weld y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau a gofynnodd a oedd unrhyw fwrriad i ymestyn y ddarpariaeth yng Nghanolfan Hamdden Tonyrefail ymhellach na'r hyn sydd ar gael eisoes?

Ymateb gan Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

Cadarnhaodd y Cynghorydd Rosser fod gwersi yn cael eu cynnal yn y ganolfan ac nid oedd bwriad i ymestyn y ddarpariaeth yma ar hyn o bryd.

5. **Cwestiwn gan Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. Hooper i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet amlinellu'r rhesymau dros y cynnig arfaethedig i newid dalgylch Ton-teg ar gyfer addysg 11-16 oed?"

Ymateb gan Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

Dywedodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Rosser fod rhaid i'r Cyngor, yn rhan o'i rôl strategol, reoli'r cyflenwad a'r galw am leoedd mewn ysgolion a'i fod yn adolygu newidiadau i ddalgylchoedd yn rheolaidd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau gyda lleoedd dros ben mewn ysgolion, ac i reoli'r galw mewn meysydd lle mae twf yn y ffordd orau.

Cwestiwn atodol gan Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. Hooper:

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at y twf yn y cymunedau lleol ar hyd ffordd osgoi Pentre'r Eglwys a'r cynnydd dilynol yn nifer y disgyblion yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, ond ychwanegodd nad oedd yn deg i rieni a disgyblion yng nghymuned Ton-teg dorri eu cysylltiad traddodiadol, naturiol ag Ysgol Gyfun Bryncelynnog er mwyn rhagweld newidiadau eraill i'r boblogaeth leol. Croesawodd yr Aelod y buddsoddiad yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog a dywedodd ei fod yn hen bryd ac awgrymodd y dylid neilltuo rhan o'r buddsoddiad hwnnw i gynyddu nifer y lleoedd 11-16 oed yn Ysgol Bryncelynnog i osgoi'r angen am newid dalgylch.

Gofynnodd y Cynghorydd Hooper i'r Aelod o'r Cabinet gadarnhau bod hwn yn gynnig amgen y byddai'r cabinet yn ei ystyried a gofynnodd hefyd am sicrwydd y byddai cysylltiadau cymunedol yn cael eu hystyried wrth i'r cabinet gyfarfod i ystyried yr eitem yn ddiweddarach yn y mis.

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

Dywedodd y Cynghorydd Rosser y byddai'r Cabinet yn ystyried yr holl ymatebion a dderbyniwyd gan gynnwys y cwestiynau a godwyd yn y cyfarfod heno yng nghyfarfod y cabinet ar 21 Mawrth, ond ychwanegodd nad oedd modd iddi ddarparu ateb i'r cwestiwn gan fod hwn yn un o dri chynnig/newid i ddalgylchoedd sy'n cael eu hystyried. Ychwanegodd fod angen cynnal arolygiadau teg o'r ddarpariaeth addysg o bryd i'w gilydd.

114 RHAGLEN WAITH

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol wybod i'r Aelodau am y diweddariad i'r rhaglen waith. Roedd hyn yn cynnwys y newyddion diweddaraf, ar lafar ynglŷn â Brexit yn y cyfarfod ar 21 Mawrth.

**115 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR MATERION ADNODDAU DYNOL
PECYNNAU YMDDEOL YN GYNNAR O WIRFODD A DISWYDDO AR GYFER
PRIF SWYDDOGION**

Yn dilyn argymhellion gan Banel Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd y Cyngor, dywedodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol wrth yr Aelodau am y pecyn diswyddo ar gyfer Prif Swyddogion (fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad) yn unol â datganiad Polisi Cyflog y Cyngor ar gyfer 2018/19, sydd wedi'i gymeradwyo.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo pecyn diswyddo ar gyfer Prif Swyddogion (fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1 yr adroddiad) yn unol â datganiad Polisi Cyflog y Cyngor ar gyfer 2018/19, sydd wedi'i gymeradwyo.

116 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

PENDERFYNWYD: "Bod y cyfarfod yma'n cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf".

**117 ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR
ADOLYGIAD O STRWYTHUR UWCH REOLWYR A SWYDDI RHEOLI
CYSYLLTIEDIG Y CYNGOR**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a oedd yn cynnwys gwybodaeth

eithriedig, i'r Aelodau. Roedd hyn yn nodi'r gwaith ailstrwythuro Uwch Reolwyr a gafodd ei gytuno gan y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018 a 24 Ionawr 2019. Roedd yr adroddiad yn gofyn i Aelodau ystyried yr argymhellion sy'n deillio o gyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a gafodd ei gynnal ar 19 Chwefror 2019.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Gweithredu'r strwythurau diwygiedig yn Atodlenni 2(i), 2(ii), 2(iii) a 2(iv) o fis Ebrill 2019, yn amodol ar y broses angenrheidiol o ran ymgynghori â staff. Byddai gweithredu'r strwythurau diwygiedig yn rhoi gostyngiad amcangyfrifedig o £392,240 mewn costau rheoli blynyddol ar lefel Uwch Reolwyr a Rheolwyr Cysylltiedig (sy'n cynnwys argostau);
2. Bod y Cabinet yn awdurdodi'r swyddi canlynol, sy'n deillio o'r strwythurau diwygiedig sydd wedi'u hamlinellu yn adran 2.1.1 yr adroddiad:
 - i) Addasu swydd y Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol - Cynllunio a'r Amgylchedd (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2) i swydd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
 - ii) Addasu swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Swyddfa'r Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfathrebu (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);
 - iii) Addasu swydd Pennaeth y Gyflogres a Phensiynau (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);
 - iv) Addasu swydd Pennaeth Cyflawni - Materion Archwilio a Chaffael (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2) i swydd Pennaeth Cyflawni - Materion Caffael (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
 - v) Newid y teitl swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Priffyrdd a Gofal y Strydoedd (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 1) i Gyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Rheng Flaen (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 1);
 - vi) Addasu swydd Pennaeth Gofal y Strydoedd (Pennaeth Gwasanaeth Level 1) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gofal y Strydoedd (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2)
 - vii) Diwygio swydd Pennaeth Priffyrdd a Pheirianeg (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i Gyfarwyddwr Gwasanaeth - Priffyrdd a Pheirianeg (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);

- viii) Addasu swydd Pennaeth Prosiectau Buddsoddi Strategol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2) i swydd Pennaeth Materion Buddsoddi Strategol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
- ix) Addasu swydd Pennaeth Materion Adfywio a Ffyniant (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Ffyniant a Datblygu (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);
- x) Addasu swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol (Cyfarwyddwr Lefel 2) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol (Cyfarwyddwr Lefel 1);
- xi) Addasu swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Adnoddau a Chyflawniad (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 1);
- xii) Addasu swydd Pennaeth TGCh (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau TGCh a Digidol (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);
- xiii) Addasu swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau i Blant (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant (Cyfarwyddwr Lefel 2);
- xiv) Addasu swydd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau i Oedolion (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion (Cyfarwyddwr Lefel 2);
- xv) Addasu swydd Pennaeth Gwasanaeth - Materion Trawsnewid (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Pennaeth Gwasanaeth - Plant sy'n Derbyn Gofal (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
- xvi) Addasu swydd Pennaeth Asesu a Gwasanaethau Uniongyrchol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Pennaeth Gofal a Chymorth (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
- xvii) Addasu swydd Pennaeth Asesu a Chynllunio Gofal (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Pennaeth Gwasanaeth - Ymyrraeth Ddwys (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
- xviii) Addasu swydd Pennaeth Iechyd y Cyhoedd a Safonau Masnach (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);

- xix) Addasu swydd Pennaeth Addysg yn y Gymuned (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau yn y Gymuned (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);
 - xx) Addasu swydd Pennaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltu (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1) i swydd Pennaeth Materion Llesiant a Chydnherthedd y Gymuned (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 1);
3. Bod y Cabinet yn awdurdodi'r swyddi canlynol, sy'n deillio o'r strwythurau diwygiedig sydd wedi'u hamlinellu yn adran 2.1.1 yr adroddiad:
- i) Creu swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol (Cyfarwyddwr Lefel 2)
 - ii) Creu swydd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cyfreithiol (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2);
 - iii) Creu swydd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor (Cyfarwyddwr Lefel 2);
 - iv) Creu swydd Pennaeth Dylunio Corfforaethol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2);
 - v) Creu swydd Pennaeth Gwasanaethau Cynnal a Chadw Corfforaethol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2);
 - vi) Creu swydd Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Gweithredol (Pennaeth Gwasanaeth Lefel 2);
 - vii) Creu swydd Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen (Gradd Cyfarwyddwr Cyfadran); a
 - viii) Creu swydd Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu (Cyfarwyddwr Lefel 2);
4. Bod y cabinet yn cytuno trosglwyddo'r canlynol, sy'n deillio o'r strwythurau diwygiedig sydd wedi'u hamlinellu yn adran 2.1.1 yr adroddiad:
- i) Trosglwyddo rhai swyddogaethau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad o'r Gyfadran Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen (y Gyfadran Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen gyfredol) i Gyfadran y Prif Weithredwr.
 - ii) Trosglwyddo rhai swyddogaethau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad o Gyfadran y Prif Weithredwr i Gyfadran Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen (y Gyfadran Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

gyfredol);

- iii) Trosglwyddo rhai swyddogaethau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad o'r Gwasanaethau Cyfreithiol (y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol cyfredol i'r Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfathrebu (y gwasanaeth Swyddfa'r Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus cyfredol);
 - iv) Trosglwyddo rhai swyddogaethau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad o'r Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfathrebu (y gwasanaeth Swyddfa'r Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus cyfredol) i'r Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu a'r Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd, Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau'r Gymuned;
 - v) Trosglwyddo rhai swyddogaethau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad o'r Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd, Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau'r Gymuned i'r Gyfadran Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen;
5. Cymeradwyo'r argymhelliad a gafodd ei wneud gan y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018, bod Mr Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran Gwasanaethau'r Gymuned a Gwasanaethau i Blant hefyd yn cael ei benodi'n Ddirprwy Brif Weithredwr o 11 Mawrth 2019 ymlaen;
 6. Cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi i'r Cyngor ar 19 Chwefror 2019, sef y dylai Mr Barrie Davies gael ei benodi'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol (Cyfarwyddwr Lefel 1), yn unol â phroses rheoli newid y Cyngor, a hynny o 11 Mawrth 2019 ymlaen;
 7. Cymeradwyo argymhelliad y Cabinet ar 18 Rhagfyr 2018, y byddai Mr Barrie Davies yn cael ei benodi'n Brif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151) o 11 Mawrth 2019 ymlaen;
 8. Cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi i'r Cyngor ar 19 Chwefror 2019, sef y dylai Mr Christian Hanagan gael ei benodi'n Gyfarwyddwr Gwasanaethau Llywodraethol a Materion Cyfathrebu (Cyfarwyddwr Gwasanaeth Lefel 2), yn unol â phroses rheoli newid y Cyngor, a hynny o 1 Ebrill 2019 ymlaen;
 9. Cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau i'r Cyngor ar 19 Chwefror, sef y dylai Mr Nigel Wheeler gael ei benodi'n Gyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen (Graddfa Cyfarwyddwr Cyfadran), yn unol â phroses rheoli newid y Cyngor, a hynny o 11 Mawrth 2019 ymlaen;
 10. Cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau i'r Cyngor ar 19 Chwefror, sef y dylai Mr Simon Gale gael ei benodi'n Gyfarwyddwr

Materion Ffyniant a Datblygu, yn unol â phroses rheoli newid y Cyngor, a hynny o 1 Ebrill 2019 ymlaen;

11. Cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau i'r Cyngor ar 19 Chwefror, sef y dylai Mr David Powell gael ei benodi'n Gyfarwyddwr - Eiddo'r Cyngor yn unol â phroses rheoli newid y Cyngor, a hynny o 1 Ebrill 2019 ymlaen;
12. Cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau i'r Cyngor ar 19 Chwefror, sef y dylai Mr Andrew Wilkins gael ei benodi'n Gyfarwyddwr - Gwasanaethau Cyfreithiol yn unol â phroses rheoli newid y Cyngor, a hynny o 1 Ebrill 2019 ymlaen;
13. Cymeradwyo dynodi rôl statudol y Swyddog Monitro i'r Cyfarwyddwr - Gwasanaethau Cyfreithiol;
14. Penodi Mr Andrew Wilkins yn Swyddog y Gofrestr Etholiadol a Swyddog Canlyniadau ar y Cyngor o 1 Ebrill 2019, a phenodi Mr Paul Nicholls yn Ddirprwy Swyddog y Gofrestr Etholiadol o 1 Ebrill 2019 ymlaen.
15. Rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol i wneud y newidiadau sydd angen eu gwneud i Gyfansoddiad y Cyngor o ganlyniad i'r uchod.

(Nodwch: Fel y nodwyd yng Nghofnod 108, cafodd nifer o Ddatganiadau o Fuddiant eu gwneud ynglŷn â'r eitem yma.)

ADRODDIAD CYFARWYDDWR CYFADRAN Y GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A RHENG FLAEN RHAGLEN GYFALAF

118

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen yr adroddiad mewn perthynas â Rhaglen Gyfalaf arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2019/20 tan 2021/22, yn dilyn cadarnhad o'r setliad llywodraeth leol ar gyfer 2019/20 ar ran y Cabinet.

Manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i dafod sawl agwedd ar yr adroddiad a'r buddsoddiadau a gaiff eu gwneud yn sgil hynny. Yn dilyn y drafodaeth, cyhoeddwyd bod cais y Cyngor i groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol yn 2022 wedi bod yn llwyddiannus.

Yn dilyn trafodaeth fanwl ynglŷn â'r rhaglen, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi ar y manylion am setliad terfynol llywodraeth leol 2019/20 ar gyfer gwariant cyfalaf, yn Atodiad 1;

2. Cytuno i ryddhau balans cronfeydd wrthgefn sydd wedi'u clustnodi fel sydd ym mharagraff 5.3 o'r adroddiad;
3. Cytuno i ddyrannu'r cyllid o Gronfeydd Wrth-gefn sydd wedi'u Clustnodi i'r blaenoriaethau buddsoddi sydd ym mharagraff 5.7 o'r adroddiad;
4. Cytuno ar y rhaglen tair blynedd 'graidd' arfaethedig, yn Atodiad 2 o'r adroddiad;
5. Cytuno ar y Rhaglen Gyfalaf tair blynedd arfaethedig gyfan, yn Atodiad 3 yr adroddiad sy'n cynnwys y cyllid canlynol nad yw'n gyllid craidd:
 - i. Benthg darbodus i gefnogi Cynlluniau Ysgolion yr 21^{ain} ganrif, prosiect Datblygu Dyffryn Taf a chynlluniau gwella'r priffyrdd;
 - ii. Grantiau cyfalaf ar gyfer cynlluniau penodol;
 - iii. Cyfraniadau trydydd parti;
 - iv. Adnoddau ychwanegol y Cyngor a gafodd eu dyrannu'n flaenorol i gefnogi cynlluniau a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol;
 - v. Manylion y blaenoriaethau buddsoddi ym mharagraff 5.7 sy'n cael eu hariannu trwy ryddhau cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ym mharagraff 5.3.

(Nodwch: **Fel y nodwyd yng Nghofnod 108**, cafodd nifer o Ddatganiadau o Fuddiant eu gwneud ynglŷn â'r eitem yma.)

119 STRATEGAETH CYLLIDEB REFENIW

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen yr adroddiad mewn perthynas â Strategaeth Cyllideb Refeniw 2019/2020 y Cyngor ar ran y Cabinet. Roedd yr adroddiad hefyd yn egluro argymhellion y Cabinet mewn ymateb i ofynion y Cyngor yma o ran darparu adnoddau, er mwyn helpu Aelodau i benderfynu dyraniadau i wasanaethau penodol o fewn Cyllideb Refeniw y Cyngor, ynghyd â lefel Treth y Cyngor, ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2020.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Nodi'r datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol (Julie James AC) a'r tabl ar setliad llywodraeth leol 2019/2020, yn Atodiad 1 i'r adroddiad;
2. Nodi'r addasiadau i'r gyllideb sylfaenol sy'n cael effaith yn 2019/20, fel sydd wedi'u crynhoi yn Nhabl 1 yr adroddiad;
3. Cymeradwyo'r cynigion ar gyfer strategaeth y gyllideb, fel sydd wedi'u

crynhoi yn Nhabl 2 o'r adroddiad, sy'n cynnwys:

- I. Ymgorffori'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (£2.600 miliwn amcangyfrifedig) i leihau'r pwysau ariannol ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau i Blant yn 2019/20.
 - II. Cytuno ar swm effeithlonrwydd ychwanegol o £0.121 miliwn (yn ychwanegol at y £6 miliwn a gafodd ei gytuno ar y cam 'Setliad Dros Dro' ym mis Hydref 2018) ar gyfer 2019/20;
 - III. Lleihau'r lwfans cyllideb ar gyfer Cynllun Lleihau Treth y Cyngor o £0.300 miliwn;
 - IV. Arbedion o £0.517 miliwn o'r gwaith parhaus o wneud defnydd gwell o swyddfeydd;
 - V. Arbediad o £1.030 miliwn mewn taliadau cyfalaf, wedi'i sicrhau drwy strategaeth rheoli'r trysorlys lwyddiannus sydd â risg isel;
 - VI. Arbediad amcangyfrifedig o £0.458 miliwn dros ran o'r flwyddyn o osod technoleg fodern yng Nghyfleuster Adfer Deunyddiau'r Cyngor;
 - VII. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor, arbedion yn deillio o Strwythur yr Uwch Reolwyr a Swyddi Cysylltiedig - cyfanswm o £0.340 miliwn ar gyfer 2019/20; a
 - VIII. Defnyddio'r 'Gronfa Gweddnewid Gwasanaeth a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig' fel arian pontio, sef cyfanswm o £1.537 miliwn ar gyfer 2019/20.
4. Cymeradwyo Tablau 3 a 4 yn Adran 10 o'r adroddiad fel sail ar gyfer dyrannu adnoddau i Gyllidebau Ysgolion Unigol, i Wasanaethau eraill y Cyngor, ac i fodloni ei ofynion ariannu corfforaethol;
 5. Cytuno ar gynnydd yn Nhreth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2020 o 3.60%;
 6. Cytuno ar gyllideb gyffredinol y Cyngor ar gyfer 2019/2020, er mwyn pennu Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod erbyn y terfyn amser statudol, sef 11 Mawrth 2019.
 7. Awdurdodi Swyddog Adran 151 y Cyngor i ddiwygio lefel y Cyllid Pontio (y Gronfa Gweddnewid Gwasanaeth a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig) yn ôl yr angen wrth dderbyn cadarnhad ynglŷn â chostau pensiynau a chyllid ar gyfer Swyddogion Tân ac Athrawon ac unrhyw

oblygiadau ar y gyllideb sylfaenol sydd wedi'u hadlewyrchu yn adroddiad cyflawniad Chwarter 1 2019/2020, os na chaiff yr arbedion sy'n deillio o'r Strwythur Uwch Reolwyr a Swyddi Cysylltiedig eu cymeradwyo.

120 RHEOL 8 - DULL GWEITHREDU'R CYNGOR

PENDERFYNWYD parhau â'r cyfarfod yn unol â Rheol 8 - Dull Gweithredu'r Cyngor y Cyngor er mwyn trafod gweddill yr eitemau ar yr agenda a pharhau â busnes y Cyngor.

121 PENDERFYNIAD TRETH Y CYNGOR

Yn ei adroddiad, rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen fanylion cyfrifiad Treth Cyngor yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth, 2020, cyn pasio'r penderfyniadau statudol angenrheidiol.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi lefel y praesept gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer De Cymru;
2. Nodi lefel y praesept y Cyngor Cymuned sydd yn Atodiad 1 yr adroddiad;
3. Pasio'r penderfyniadau ffurfiol Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth, 2020, fel y'i cynhwysir yn Atodiad 2 i'r adroddiad;
4. Nodi sylwadau Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen am gadernid yr amcangyfrifon a digonolrwydd cronfeydd ariannol arfaethedig fel sy'n cael eu nodi ym mharagraff 9.2 o'r adroddiad;
5. Nodi bwriad Llywodraeth Cymru i basio deddfwriaeth sydd â'r bwriad o eithrio pobl ifainc sy'n gadael gofal rhag talu Treth y Cyngor o 1 Ebrill 2019 ymlaen. Bydd hyn yn disodli Polisi Dewisol y Cyngor ar gyfer y sawl sy'n Gadel Gofal.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL

122 YMDDISWYDDIAD UWCH GRWNER ARDAL CRWNER CANOL DE CYMRU

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol wrth yr Aelodau am ymddiswyddiad Mr Andrew Barkley, Uwch Grwner Ardal Crwner Canol De Cymru, a nododd y trefniadau a gaiff eu darparu dros dro nes caiff Uwch Grwner newydd ei benodi.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi ymddiswyddiad Uwch Grwner Ardal Crwner Canol De Cymru.
2. Nodi'r trefniadau dros dro, lle bydd y Crwner Ardal cyfredol, Mr Graeme Hughes, yn cyflawni swydd Uwch Grwner Dros Dro o 1 Ebrill 2019 er mwyn parhau i ddarparu'r gwasanaeth.
3. Yn unol â'r hen drefn, cytuno ar banel o 3 Aelod, a fydd yn cynnwys yr Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd (fel Aelod o'r Cabinet dros Wasanaethau'r Crwner) ac Arweinydd yr Wrthblaid Fwyaf (neu ddirprwy enwebedig), i benodi'r Uwch Grwner.

123 RHYBUDD O GYNNIG

Cyn ystyried y Rhybuddion o Gynigion, dywedodd Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol wrth yr Aelodau y dylai enwau holl aelodau'r Blaid Lafur fod wedi'u nodi yn erbyn y Rhybuddion o Gynigion.

A. Bod y Rhybudd o Gynnig canlynol, a gyflwynwyd yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Webber, J. Harries, L.M. Adams, D.R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Elliott, S. Evans, A. Fox, M. Forey, M. Fidler Jones, E. George, M. Griffiths, G Hughes, G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M.A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S.M. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, R.W. Smith, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R.K. Turner, D.H. Williams, T. Williams, C.J. Willis a R. Yeo wedi'i dderbyn yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor.

Mae tua 1 o bob 10 o'r boblogaeth ym Mhrydain yn rhan o gymuned y Lluoedd Arfog. Serch hynny, nododd y cyfrifiad yn 2011 mae ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd gan wleidyddion, elusennau a darparwyr gwasanaeth o'r grwp yma, sydd yn aml yn cael ei anghofio.

Yma yn Rhondda Cynon Taf, mae gan y Cyngor hanes balch o gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog. Ni yw'r unig Awdurdod Lleol yng Nghymru sydd wedi derbyn y Wobr Aur gan Y Weinyddiaeth Amddiffyn am y cymorth rydyn ni'n ei ddarparu'n lleol. Mae'r Cyngor bob amser yn awyddus i wella'r cymorth rydyn ni'n ei ddarparu i filwyr, cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Mae ymgyrch 'Count Them In' y Llang Brydeinig Frenhinol yn ymdrechu i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth drwy sicrhau bod Cyfrifiad 2021 yn nodi'r wybodaeth berthnasol am gymuned y Lluoedd Arfog ac yn llywio'r cymorth y mae modd i sefydliadau eu darparu o ran bodloni anghenion yr holl gymuned filwrol.

Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â'r Rhybudd o Gynnig, **PENDERFYNWYD:**

- i. Cefnogi ymgyrch 'Count Them In' y Lleng Brydeinig Frenhinol er mwyn sicrhau bod modd casglu gwybodaeth hanfodol ynglŷn â chymuned arwyddocaol y Lluoedd Arfog yn y Deyrnas Unedig.
- ii. Gofyn i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Weinidog y Cyfansoddiad i wneud cais am gynnwys cwestiynau perthnasol yng Nghyfrifiad 2021.

B. PENDERFYNODD yr Aelodau y byddai Rheol 10.1 o Ddull Gweithredu'r Cyngor yn cael ei atal, gan fod Eilydd y Rhybudd o Gynnig, sef Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Norris wedi ymddiheuro. Roedd hyn yn golygu bod modd ystyried y Rhybudd o Gynnig isod yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Evans, M. A. Norris, L.M. Adams, D.R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Elliott, A. Fox, M. Forey, M. Fidler Jones, E. George, M. Griffiths, J Harries, G Hughes, G. Holmes, G. Hopkins, G. Jones, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, D. Owen-Jones, S. Pickering, S.M. Powell, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, R.W. Smith, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R.K. Turner, M Webber, D.H. Williams, T. Williams, C.J. Willis a R. Yeo:

Mae Clefyd Niwronau Motor yn glefyd angheuol sy'n datblygu'n gyflym, ac sy'n effeithio ar yr ymennydd a llinyn asgwrn y cefn drwy ymosod ar nerfau sy'n rheoli'r ffordd mae'r corff yn symud. Mae hyn yn golygu bod modd i'r cyflwr beri i ddiodefwyr ei chael hi'n fwyfwy anodd i gyflawni tasgau sylfaenol, gan gynnwys anadlu, yn y pen draw.

Mae tua 5,000 o oedolion o bob cefndir yn cael eu heffeithio gan y clefyd ar unrhyw adeg yn y DU. Ar hyn o bryd, does dim triniaeth i wella Clefyd Niwronau Motor ac, o ganlyniad i hynny, mae hi'n bwysig bod diodefwyr yn cael eu trin â'r gofal a'r parch maen nhw'n ei haeddu. Nod y Siarter Clefyd Niwronau Motor yw cyflawni hyn drwy sicrhau ansawdd bywyd gwell, urddas a pharch i ddiodefwyr a'u cynhalwyr.

PENDERFYNODD y Cyngor:

- i. Mabwysiadu Siarter Clefyd Niwronau Motor y Gymdeithas Clefyd Niwronau Motor er mwyn helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r rheiny sy'n byw gyda'r clefyd yma yn ein cymuned leol.
- ii. Cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Craffu Materion Iechyd a Lles er mwyn ystyried y goblygiadau ymarferol ymhellach, yn ogystal ag ystyried y ffordd orau i'r Cyngor roi nodau'r Siarter ar waith.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm

**Cllr S Powderhill
Cadeirydd.**